LC297

# Cynulliad Cenedlaethol Cymru
# The National Assembly for Wales

**ADRODDIAD GAN Y PWYLLGOR DEDDFAU** **LEGISLATION COMMITTEE REPORT**

**Rheoliadau Newid Categori Ysgolion a Gynhelir (Cymru) 2001**

**Y Cefndir**

Mae Atodlen 8 i Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998 yn cynnwys darpariaeth sy'n golygu –

(a) bod ysgolion cymunedol, ysgolion sefydledig, ysgolion a gynorthwyir yn wirfoddol ac ysgolion a reolir yn wirfoddol yn cael newid o un categori i un arall.

(b) bod ysgol arbennig gymunedol yn cael dod yn ysgol arbennig sefydledig.

(c) bod ysgol arbennig gymunedol neu ysgol arbennig sefydledig yn cael dod yn ysgol arbennig sefydledig neu'n ysgol arbennig gymunedol.

Mae'r Rheoliadau presennol yn cynnwys darpariaeth fanwl mewn perthynas â'r weithdrefn ar gyfer rhoi newidiadau o'r fath ar waith. Yn benodol, mae'r Rheoliadau yn ymdrin â'r canlynol:

- gofynion sylfaenol i'w cyflawni,
- cyhoeddi cynigion manwl a gwybodaeth arall a chyflwyno gwrthwynebiadau a'u hystyried,
- trosglwyddo staff,
- offerynnau llywodraethu newydd,
- ailgyfansoddi cyrff llywodraethu,
- trosglwyddo eiddo.

Darperir ar gyfer cyhoeddi cynigion a'u hystyried drwy gymhwyso darpariaethau manwl y Ddeddf alluogi gydag addasiadau helaeth. I gynorthwyo defnyddwyr, mae darpariaethau'r Ddeddf fel y'i haddaswyd felly wedi'u hatgynhyrchu'n llawn. Mae materion ynghylch trosglwyddo staff, ffurf yr offerynnau llywodraethu newydd a throsglwyddo tir yn cael sylw manwl iawn yn yr Atodlenni i'r Rheoliadau.

**Rheol Sefydlog 11.5**

Nid oes dim pwyntiau wedi'u nodi fel materion y mae angen i'r Pwyllgor wahodd y Cynulliad i roi sylw arbennig iddynt o dan Reol Sefydlog 11.5.

**Sylwadau Cyffredinol**

Gan eu bod wedi cael cyfle i edrych ar ddrafft cynnar o'r Rheoliadau, llwyddodd cynghorwyr cyfreithiol y Pwyllgor i godi nifer o bwyntiau drafftio sydd bellach wedi'u cymryd i ystyriaeth. Gan hynny, dim ond y pwyntiau canlynol sydd ar ôl i'w cofnodi fel sylwadau cyffredinol.

**Rheoliad 14(2)**

Mae'r cwestiwn wedi'i godi ynghylch a yw "(neu ddyddiad gwneud yr offeryn llywodraethu newydd os yw'n ddiweddarach)" yn gwrthdaro â Rheoliadau 10(1) a 14(1) h.y. mae Rheoliad 10(1) yn ei gwneud yn ofynnol i'r offeryn newydd gael ei wneud erbyn y dyddiad gweithredu ac mae Rheoliad 14(1) yn darparu mai dim ond pan fydd offeryn llywodraethu newydd wedi'i wneud y bydd paragraff (2) yn weithredol. Esboniwyd, serch hynny, y byddai'r geiriau hyn wedi'u cynnwys i ymdrin â'r sefyllfa pan fyddai corff llywodraethu yn methu â gwneud yr offeryn llywodraethu newydd o fewn y terfyn amser.

**Atodlen 1, Tabl 3**

Cadarnhawyd bod "place" yn adran 28(3)(b)(i) yn fwriadol yn yr unigol.

**Atodlen 4, paragraff 17**

Ar y dechrau, ni ddeallwyd effaith paragraff 17 h.y.

> Ni all fod yn gymwys mewn achosion y mae Rheoliad 5(2) yn ymdrin â hwy.

Pan fydd tir yn cael ei drosglwyddo’n awtomatig o dan Ran II o’r Atodlen, bydd hynny’n digwydd er gwaethaf paragraff 17.

Mewn achosion pan fydd Rhan II yn ei gwneud yn ofynnol i drosglwyddo yn unol â “chytundeb trosglwyddo” ni ellir cael cytundeb tybiedig heb ryw ddarpariaeth ar gyfer pennu ei delerau.

Esboniwyd, serch hynny, fod paragraff 17 yn ymwneud â sefyllfaoedd lle dylai tir fod wedi’i drosglwyddo i gorff llywodraethu neu ymddiriedolwyr yn y gorffennol – weithiau yn y gorffennol pell.  Esboniwyd, er enghraifft, fod yna ddarpariaethau yn Neddf Addysg 1944 a Deddf Gyfuno 1996 lle’r oedd yn ofynnol i awdurdod addysg lleol ddarparu safle ysgol newydd ar gyfer ysgol wirfoddol a breinio’r tir yn yr ymddiriedolwyr.  Mae paragraff 17 yn ailadrodd paragraff 8 o Atodlen 21 i Ddeddf 1998.

**Mick Bates AC**
**Cadeirydd y Pwyllgor Deddfau**

26 Mehefin 2001